

CYLCHLYTHYR HAFOD CEIRI 2021

Annwyl Gyfaill,

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd!



Mae'r gwaith ar do y capel bron a dod i ben. Y cwbl sydd ei angen rwan ydi 4 diwrnod sych i fedru tynnu'r llechi a gosod rhai newydd. Yr ydym hefyd wedi cael arian ychwanegol gan CADW a Chronfa Dreftadaeth Bensaerniol (AHF) i wneud gwaith ar blastar y nenfwd a gwella edrychiad y prif ddrws ac ambell ffenest yn y tu blaen.



Yr ydym hefyd wedi cael addewid am y rhan fwyaf o'r arian i symud ymlaen efo'r caffi gan Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig. Gobeithio rwan y bydd gweddill o'r arian yn dilyn yn yr wythnosau nesaf.

Wrth gwrs, oherwydd y cyfyngiadau sydd yn bodoli ni fu'n bosib cychwyn ar weithgareddau treftadaeth oedd gennym ar y gweill ond cafwyd ambell gyfarfod Zoom difyr iawn yng nghwmni Geraint Jones a Bob Morris yn ystod misoedd y clo. Ein bwriad yw ail ddechrau ar y cyfarfodydd misol pan fydd y sefyllfa yn haws o ran cynnal digwyddiadau mwy o dan do.



Yr ydym, bob blwyddyn, yn cael noson gartrefol yn Nhabor ar ddechrau'r cyfnod adfent 'Ar Drothwy'r Dolig' yng nghwmni doniau lleol. Wrth gwrs, yn 2020, nid oedd yn bosib cynnal y noson ond gyda chymorth Sion Ynyr yr ydym wedi gwneud fideo o eitemau lleol i ddathlu'r Nadolig. Mae'r fideo i'w gweld ar ein gwefan hafodceiri.cymru o dan newyddion. Mae hefyd ar ein facebook neu gallwch roi "ar drothwy'r dolig" ar YouTube.



Cawsom gyfle hefyd i godi calon y pentrefwyr trwy addurno ffenestri. Y bwriad oedd mynd o gwmpas y pentref i ganu carloau a gwerthfawrogi y ffenestri gan orffen efo gwasanaeth byr o flaen y capel noswyl y Nadolig. Yn anffodus nid oedd y cyfyngiadau yn caniatáu ond un noson o garolau – ond roedd y ffenestri yn werth eu gweld – cawn ddathlu yn iawn y flwyddyn nesaf gobeithio!





Yr ydym wedi cael grant gan Gronfa Drefnadaeth y Loteri i wneud ychydig o waith ar atgofion/cadw defnydd hen adeiladau/straeon llafar ac ati yn yr ardal. Mae'r arian yn talu i ni gynhyrchu 40 plac QR i'w gosod o



gwmpas y pentref/ardal fel bod ymwelwyr (a thrigolion) yn gallu cael ychydig o wybodaeth am ambell adeilad/ cymeriad/ digwyddiad. Bydd taflen hefyd yn cael ei chynhyrchu i gydfynd â'r prosiect.

Yr ydym wedi agor tudalen newydd ar "Just Giving" os hoffech gyfrannu at y fenter byddai hyn yn cael ei dderbyn yn ddiolchgar iawn.

*****TRI DIGWYDDIAD ZOOM AR DDECHRAU 2021.*****

Sgwrs gan Trystan Lewis am 7:30 o'r gloch nos Fercher, 20 Ionawr

Time: Jan 20, 2021 07:30 PM London

<https://us02web.zoom.us/j/86799280251?pwd=WkYzWTJzRzNLVkJZFQ3RaNOV6MUNXZz09>

Meeting ID: 867 9928 0251 Passcode: 200121

Sgwrs gan Marian Brosschot ar 'Blwyddyn ym Mhatagonia' am 7:30 nos Fercher, 17 Chwefror

Time: Feb 17, 2021 07:30 PM London

<https://us02web.zoom.us/j/88395287558?pwd=UFIxZTZOSVVzeC9xSHNIVm5GOGNPdz09>

Meeting ID: 883 9528 7558 Passcode: 170221

Sgwrs gan Gwyn Vaughan Jones ar gefndir ei bartner sydd yn dod o Norwy (Sami sy'n siarad Cymraeg!) Am 7:30 nos Fercher 17 Mawrth

Topic: Gwyn Vaughan Jones

Time: Mar 17, 2021 07:30 PM London

<https://us02web.zoom.us/j/83765263705?pwd=Q1o5UjhmYXN3TXBJUmNZZmkxWCtwdz09>

Meeting ID: 837 6526 3705 Passcode: 170321

Os bydd problem cael mynediad i'r digwyddiad, ffoniwch 01758750462



